Adroddiad ar

# Ysgol Plascrug

Plascrug Avenue
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1HL

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

# Ynglŷn ag Ysgol Plascrug

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Plascrug |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Trosiannol |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 441 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 329 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 62 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 14.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 7.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 2.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 8.8% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2025 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/02/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/11/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae arweinwyr yr ysgol yn meithrin gweledigaeth gytûn o gymuned ddysgu hapus, ofalgar ac aml-ieithyddol lle mae pob disgybl yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi i ffynnu. Mae'r pennaeth, y dirprwy bennaeth a'r staff yn dîm effeithiol ac angerddol sy'n cynnig profiadau cyfoethog mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Mae'r berthynas agos rhwng staff, disgyblion a rhieni, ynghyd â chysylltiadau cryf â'r gymuned a sefydliadau lleol, yn elfennau allweddol o lwyddiant yr ysgol. Mae gweithgareddau cymunedol fel 'Cawl a Chân' a'r 'Noson Rhyngwladol', yn dathlu amrywiaeth ddiwylliannol ac yn meithrin ymdeimlad cryf i'r disgyblion o berthyn i'w cymuned leol, Cymru a'r byd ehangach.

Mae arweinyddiaeth yr ysgol yn effeithiol, cynhwysol ac uchelgeisiol sy'n rhoi lles disgyblion a staff a wrth wraidd pob penderfyniad. Mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn gadarn, ac mae arweinwyr yn ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau cenedlaethol. Erbyn hyn, mae'r ysgol yn darparu mwy o Gymraeg fel rhan o'r addysgu a dysgu, ac mae staff yn rhoi pwyslais haeddiannol ar ddatblygu a dylanwadu'n gadarn ar agweddau cadarnhaol y disgyblion at yr iaith. Mae'r diwylliant o ddysgu proffesiynol yn cefnogi staff i ymchwilio ac arloesi'n barhaus.

Mae'r llywodraethwyr yn ymrwymedig ac yn wybodus, gan gyfrannu'n adeiladol at fonitro, gwerthuso a datblygu'r ysgol ymhellach. Mae ymddygiad disgyblion yn gadarn ac mae'r rhan fwyaf yn dangos parch, empathi ac ymrwymiad i'w dysgu. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd mae athrawon yn eu darparu i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dysgu ac i ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol yn anghyson.

Mae arweinwyr yn cynllunio darpariaeth eang, greadigol a chytbwys sy'n cefnogi lles a medrau llythrennedd, rhifedd a datblygiad emosiynol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn fwriadus. Mae'r cynorthwywyr addysgu yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu rhaglenni cefnogi effeithiol, yn enwedig ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY). Mae strategaethau sefydledig fel y Swyddog Cefnogi Teuluoedd a'r uned faethu, 'Y Plas', yn rhoi darpariaeth gynhwysol i ddisgyblion sydd angen cefnogaeth bellach â'u dysgu.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dysgu, ac i weithio’n fwy annibynnol.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae arweinwyr yn cydweithio'n llwyddiannus â phartneriaid i greu gweledigaeth gytûn o gymuned ddysgu hapus, ofalgar ac aml-ieithyddol lle mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i ffynnu. Mae'r pennaeth, y dirprwy bennaeth a'r staff yn dîm effeithiol ac angerddol sy'n cynnig profiadau cyfoethog mewn amgylchedd cynhwysol a chefnogol i ddisgyblion. Mae'r amgylchedd gofalgar, sy'n treiddio drwy bob agwedd o fywyd yr ysgol, ynghyd â pherthynas weithio gref rhwng staff a disgyblion, yn creu cymuned ddiogel a theuluol. Mae'r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel, gan roi lles disgyblion a staff wrth wraidd popeth a wneir.

### Ciplun: Meithrin cysylltiadau cymunedol cryf a chlòs i gefnogi lles a dysgu disgyblion

Un o rinweddau cryfaf yr ysgol yw'r modd mae arweinwyr a staff wedi sefydlu perthynas hynod gadarn a chynhyrchiol â rhieni a'r gymuned ehangach. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i rieni gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol ac i gefnogi dysgu eu plant. Mae digwyddiadau fel 'Cawl a Chân' a 'Noson Rhyngwladol' yn hybu ymdeimlad cryf o berthyn ac yn dathlu amrywiaeth ddiwylliannol y gymuned leol yn gelfydd.

Mae arweinwyr a staff yn manteisio'n grefftus ar fedrau ac arbenigeddau rhieni a phartneriaid cymunedol mewn cyd-destunau dysgu go iawn sy'n ennyn diddordeb a chodi dyheadau disgyblion. Mae'r gymdeithas rieni ac athrawon yn weithgar a blaengar wrth godi arian i gefnogi prosiectau, fel trawsnewid tir segur ar safle'r ysgol i fod yn ofod dysgu awyr agored deniadol i gefnogi lles a medrau disgyblion. Trwy bartneriaethau cryf â'r Brifysgol leol, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni ddysgu Cymraeg, gan gryfhau defnydd yr iaith yn y cartref. Mae cysylltiadau effeithiol a rheolaidd â sefydliadau lleol fel y Llyfrgell Genedlaethol a'r ysgolion cyfagos yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion ac yn cryfhau eu cysylltiad â'r gymuned leol yn hynod gadarn.

Mae'r cynorthwywyr addysgu yn rhan annatod o dîm yr ysgol, gan gyfrannu'n werthfawr at ddysgu'r disgyblion, ac at hyrwyddo eu lles emosiynol drwy raglenni cefnogi pwrpasol ac ystyrlon. Trwy hyn, mae'r disgyblion yn meithrin chwilfrydedd a pharch yn fedrus sy'n eu cefnogi i ymfalchïo yn natur amrywiol eu cymuned. Trwy weithgareddau, gwasanaethau a dathliadau, maent yn dathlu treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol yr ysgol ac yn meithrin balchder yn eu hunaniaeth Gymreig ac amlddiwylliannol yn hynod lwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth eang a chytbwys yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol a chymdeithasol gadarn sy'n sail i'r gymuned gynhwysol.

Mae arweinwyr a staff yr ysgol yn dangos gwerthoedd cadarn ac ymddygiad proffesiynol o safon uchel, gan greu amgylchedd diogel, cynnes a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad y

disgyblion yn cael eu cyfathrebu'n glir ac adeiladol, gan feithrin cymuned sy'n seiliedig ar barch, empathi a thegwch. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymddygiad cadarn ac ymrwymiad cryf i'w dysgu, gan ddangos dyfalbarhad mewn gwaith unigol a grŵp. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd mae athrawon yn eu darparu i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dysgu ac i ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol yn anghyson.

Mae gan arweinwyr brosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant clir sy'n cael effaith gadarnhaol ar les a chynnydd ym medrau'r disgyblion dros amser. Mae arweinwyr yn ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel wrth ddarparu mwy o Gymraeg fel rhan o'r addysgu a dysgu. Rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygu'r Gymraeg ymhlith staff a disgyblion, ac ar sefydlu ethos Cymraeg a Chymreig. Maent yn meithrin diwylliant o ddysgu proffesiynol lle mae staff yn cael eu hannog i ymchwilio ac arwain ar ddatblygiadau allweddol, fel cryfhau medrau mathemategol a darllen disgyblion.

Mae staff yn adnabod y gymuned yn drylwyr ac yn gweithio gydag ymroddiad i sicrhau bod pob teulu, gan gynnwys y rhai dan anfantais, yn cael cymorth priodol.

### Ciplun: Cefnogi datblygiad disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), disgyblion bregus a'r rhai hynny sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY)

Mae'r staff addysgu yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl o anghenion pob disgybl, gan gynnwys y rhai ag ADY. Maent yn defnyddio ystod eang o wybodaeth gynhwysfawr i gynllunio profiadau dysgu sydd wedi eu teilwra'n ofalus. Mae trafodaethau proffesiynol rheolaidd ymysg staff yn cyflwyno darpariaeth gyson o ansawdd uchel. Mae timau o gynorthwywyr medrus yn arwain rhaglenni cefnogi effeithiol sy'n hyrwyddo lles a datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n dysgu SIY yn hynod lwyddiannus.

Mae hyrwyddo lles disgyblion yn flaenoriaeth ganolog, gyda strategaethau sefydledig fel y Swyddog Cefnogi Teuluoedd ac uned faethu 'Y Plas', sy'n cynorthwyo disgyblion bregus a gofalwyr ifanc yn sensitif ac effeithiol. Yn ogystal, mae cynlluniau fel 'Bwyd a Hwyl' yn cefnogi teuluoedd dros wyliau'r ysgol, a'r ddarpariaeth drochi ieithyddol yn y 'Pod' yn cryfhau medrau'r disgyblion hynny sy'n dysgu SIY tra'n hybu eu hyder a'u gallu i integreiddio'n llwyddiannus i'r ysgol. Mae partneriaethau cryf â rhieni ac sefydliadau allanol yn cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae bron bob disgybl sy'n derbyn cymorth yn gwneud cynnydd cryf iawn.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol ac yn ymrwymedig i fywyd a gwaith yr ysgol, gan adnabod y gymuned y mae'n ei gwasanaethu yn dda. Maent yn wybodus ac yn defnyddio eu harbenigedd proffesiynol eang i gyfrannu'n adeiladol at welliannau parhaus. Mae eu cefnogaeth gadarn i'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth wedi cryfhau arweinyddiaeth yr

ysgol ymhellach, tra bod eu gweithgareddau monitro a gwerthuso, fel arsylwadau addysgu a dysgu a thrafodaethau â staff, yn anelu at safonau uchel. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais clir ar ddarparu cyfleoedd cyfartal i bob disgybl gymryd rhan mewn profiadau dysgu cyfoethog, gan gynnwys clybiau amrywiol a theithiau tramor. Yn ogystal, mae disgyblion o bob cefndir ac anghenion dysgu yn cael cyfleoedd rheolaidd i leisio'u barn trwy weithgarwch cynghorau fel y cyngor eco a'r Criw Cymraeg. Mae hyn yn cyfrannu at hyrwyddo cyfrifoldeb ac ymdeimlad o berchnogaeth ymhlith y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio profiadau dysgu cyfoethog sy'n datblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus ac yn anelu at gysondeb ar draws dosbarthiadau. Mae'r amgylcheddau dysgu ysgogol yn dathlu gwaith disgyblion ac yn darparu adnoddau hygyrch sy'n cefnogi eu datblygiad. Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn drylwyr ac yn llywio cynllunio gweithgareddau sydd wedi eu teilwra'n ofalus i ddiwallu eu hanghenion unigol yn effeithiol. Mae disgyblion yn ymateb yn bwrpasol i adborth athrawon sy'n cefnogi'r disgyblion i wybod beth maent wedi ei wneud yn dda ac i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau cyfathrebu isel neu maent o gartrefi lle na siaredir Cymraeg neu Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau cyfathrebu cadarn, ac erbyn brig yr ysgol maent yn cyfathrebu'n hyderus ac yn eglur, gan ddefnyddio geirfa aeddfed a chystrawen gynyddol gywir. Yn ystod y cyfnod trosiannol ieithyddol, gyda chefnogaeth gadarn gan yr awdurdod lleol a staff brwdfrydig yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn dechrau siarad Cymraeg yn gynyddol hyderus, Mae agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg yn amlwg ymysg disgyblion a staff ar draws yr ysgol.

Yn eu darllen, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da, gan ddangos dealltwriaeth o destunau, yn rhagfynegi'n gywir a mynegi barn bwrpasol am gynnwys y testunau. Mae medrau ysgrifennu Saesneg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn, ac maent yn defnyddio patrymau iaith syml yn fwy hyderus yn eu gwaith ysgrifennu Cymraeg. Mae'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n aeddfed mewn amrywiaeth o ffurfiau creadigol, fel straeon antur, rapiau a blogiau.

Mae datblygiad medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gryf. Mae athrawon yn cynnig gweithgareddau mathemateg heriol ac ystyrlon i ddisgyblion sy'n cefnogi dealltwriaeth o wahanol gysyniadau yn fedrus. Trwy brosiectau ar y cyd ag ysgolion uwchradd, caiff darpariaeth effeithiol ei chyflwyno i gefnogi datblygiad mathemateg disgyblion sy'n arddangos medrau cryf yn y maes dysgu hwn. Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n hynod effeithiol, o godio cynnar i ddefnyddio dyfeisiau'n hyderus i greu prosiectau pwrpasol.

Mae staff yn datblygu medrau corfforol a chreadigol disgyblion yn llwyddiannus drwy weithgareddau celf, cerddoriaeth a chwaraeon. Trwy gyfrwng y gweithgareddau hyn, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meithrin balchder at eu hardal leol a Chymru yn ogystal â dealltwriaeth o ddiwylliannau amrywiol y byd, gan eu paratoi i fod yn ddinasyddion deallus ac uchelgeisiol.

Mae arweinwyr yn gweithredu’n rhagweithiol i recriwtio staff amlieithog, sy’n hwyluso pontio effeithiol rhwng y cartref a’r ysgol. Trwy gydweithio buddiol ag ysgolion uwchradd lleol, caiff disgyblion gyfleoedd trosglwyddo gwerthfawr sy’n meithrin eu hyder ac yn cefnogi pontio llyfn i’w camau nesaf yn eu dysgu.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/01/2026